# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Evans Dental Limited / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 13 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-939-9



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................................................... 7

   Ansawdd profiad y claf ..................................................................... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................................................... 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ................................................. 19

4. Beth nesaf? ................................................................................... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........................................ 22

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .23

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ................................................. 24

   Atodiad C – Cynllun gwella .................................................................. 25

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Evans Dental Limited ar Lawr Cyntaf Adeilad y Tanerdy yn Stryd y Bont, Aberhonddu, LD3 8AH, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 13 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ynghylch sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Evans Dental Limited yn cynnig gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth yr oedden nhw'n eu cael
- Canfuom dystiolaeth fod hwn yn wasanaeth a gaiff ei redeg yn dda, gyda systemau effeithiol i gefnogi'r gwaith cyffredinol o reoli ac arwain y practis
- Roedd y tîm staff yn hapus iawn yn eu gwaith yn ôl pob golwg, yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus, a chydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd cyfleusterau'r ystafelloedd triniaeth wedi eu cyfarparu'n dda, ac roedd yn amlwg eu bod yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Sicrhau bod staff perthnasol yn adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed
- Hunanwerthuso gan ddefnyddio offeryn datblygu deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd, er mwyn caniatáu i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio
- Cadw cofnodion
- Mae angen tacluso'r ystafell ddadheintio

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Evans Dental Limited yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Aberhonddu. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys tri deintydd, pedair nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ond ar gyfer y GIG yn unig.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Evans Dental Limited yn cynnig gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus â'r gwasanaeth yr oedden nhw'n ei gael.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau. Derbyniwyd y mwyafrif o holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth a gyflwynwyd gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Gwnaethom ofyn i gleifion roi eu barn ar y practis deintyddol, gan gynnwys sut allai wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> “Mae'r gwasanaeth a ddarparwyd wedi gwneud argraff fawr arnaf. Mae'r staff yn creu amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar. Mae lles a llesiant cleifion yn cael y gofal gorau.”
>
> “Nid oes angen gwella'r practis o gwbl.  Rwyf wrth fy modd gyda'r practis."
>
> “Gwasanaeth gwerthfawr dros ben gyda deintydd a derbynnydd profiadol, rhagorol (a chynorthwywyr newydd). Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr.”
>
> "Maen nhw'n anfon neges destun i'ch atgoffa ar fore eich apwyntiad."

### Cadw'n iach

Roedd digon o wybodaeth hybu iechyd deintyddol benodol ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am

eu hylendid ceg eu hunain. Roedd posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol wedi'u harddangos a oedd yn rhoi gwybodaeth amrywiol i gleifion am y practis deintyddol ac am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y practis. Roedd rhestr brisiau ar gyfer ffioedd y GIG wedi'i harddangos yn glir hefyd yn y fan aros / y dderbynfa.

Gwnaeth y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC gadarnhau bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Darparodd un claf y sylw canlynol yn yr holiaduron ynghylch y staff:

> *"Practis da iawn, mae'r staff bob amser yn gwrtais a chymwynasgar. Diolch."*

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gael sgyrsiau preifat gyda'r staff. Derbyniwyd galwadau ffôn hefyd yn breifat, o glyw'r cleifion.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth (i'r graddau yr oedd yn dymuno), a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo.

Er i'r mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud wrthym fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd bron hanner y cleifion hyn nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis wedi'i harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r mannau aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth cleifion ei hun hefyd i gleifion fynd ag ef gyda nhw.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gall rhai o'r staff sy'n gweithio yn y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd un claf a oedd yn siarad Cymraeg wrthym mai dim ond weithiau gallai siarad â'r staff yn ei iaith ddewisol.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, canfuom fod rhif ffôn argyfwng y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys ar gleifion y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos wrth y brif fynedfa, ac roedd yn cael ei nodi ar neges y peiriant ateb ac ar y daflen wybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a chanfod bod y rhan fwyaf o'r opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen i'r deintyddion yn y practis wella ac ehangu ar y cyngor a'r opsiynau a roddir i gleifion.

Canfuom hefyd nad oedd cydsyniad llafar i driniaeth bob amser yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod cydsyniad llafar bob amser yn cael ei gofnodi pan roddir ef gan bob claf, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Gwnaethom nodi bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintyddion yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion, a chytunodd y practis i wneud hyn.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cydraddoldeb pwrpasol ar waith.

Mae'r practis ar y llawr cyntaf. Gallai defnyddwyr cadair olwyn gael mynediad i'r practis trwy ddefnyddio lifft. Mae'r dderbynfa, y mannau aros, y toiledau a'r holl ystafelloedd triniaeth deintyddol yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion, a gwnaethom gynghori'r practis i adolygu a diweddaru'r polisi, gan sicrhau bod yr amserlenni cywir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion wedi'u nodi yn unol â 'Gweithio i Wella'[1] ar gyfer cleifion y GIG. Gwnaeth y practis adolygu a diweddaru'r polisi ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Dywedodd mwy na hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedden nhw'n gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn ynghylch y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaethau'r GIG. Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno neu sut i leisio pryder wedi'i harddangos yn glir yn y dderbynfa a'r mannau aros. Roedd y manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu nodi yng nghofnodion unigol y cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol mewn dyddlyfr canolog er mwyn gallu nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedden nhw'n gwybod a oedd y practis deintyddol wedi gofyn eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir, trwy holiaduron cleifion er enghraifft.

Gwnaethom drafod dull y practis o fynd ati i gael adborth gan gleifion. Mae'r practis yn gwneud hyn trwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Gwnaethom hefyd nodi bod gan y practis flwch sylwadau i gleifion roi sylwadau a holiaduron yn y dderbynfa'n ddienw. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw adborth yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o adborth y cleifion yn y mannau aros hefyd, er mwyn dangos i'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi'i gasglu ac wedi cael sylw er mwyn ehangu'r dysgu a gwella'r gwasanaeth. Cytunodd y practis i wneud hyn.

[1] http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuom fod cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn credu bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw ar gyfer y cleifion ac un toiled deuryw ar gyfer y staff. Roedd arwyddion i ddangos lle roedd y ddau doiled hyn ac roeddent yn amlwg yn lân iawn.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod pob dyfais fechan yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roedd y rhain yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn glir ger y dderbynfa.

Canfuom fod yr holl gemegau'n cael eu cadw'n ddiogel, a dim un ohonynt yn cael eu gadael mewn mannau cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn

cynnwys nifer o daflenni data a oedd yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith.

Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig, yn unol â'r dull gwaredu cywir, ac yn cael ei storio'n ddiogel pan oedd yn aros i gael ei gasglu.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan un ystafell driniaeth ddeintyddol gyfleusterau penodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[2] Roedd y cyfleuster wedi'i gyfarparu'n dda a gellid ei gyrraedd yn uniongyrchol o'r ystafell driniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y cyfleuster ychydig yn anniben mewn mannau. Tynnwyd sylw'r practis at hyn, a gwnaethom argymell eu bod yn trefnu i'r ardal gael ei thacluso er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.

Roedd y gwaith o ddadheintio'r offer deintyddol ar gyfer y ddwy ystafell driniaeth arall yn cael ei wneud yn yr ystafelloedd triniaeth.  Roeddem yn fodlon fod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Fodd bynnag, gwnaethom drafod a chynghori'r practis i ystyried cael un ystafell ddadheintio bwrpasol ar gyfer yr holl ystafelloedd triniaeth fel rhan o unrhyw gynlluniau ailwampio yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i gael gwared ar yr awtoclafau yn y ddwy ystafell driniaeth a pharhau i lanhau â llaw yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dangosodd staff y broses ddadheintio a chanfuom fod y gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennaeth ar gael i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau’r hyfforddiant hwn fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan yr holl staff clinigol a rheolwr y practis fod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau. Argymhellwn fod y practis

---

[2] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ar ddadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol.

yn cyflwyno rhestr wirio rhaglen ymsefydlu ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio, a dylai hon gael ei chadw o fewn cofnodion hyfforddi unigol y staff i ddangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion rheoli heintiau a dadheintio mewn practisau deintyddol yng Nghymru.

Canfuom nad oedd y cofnodwyr data ar gyfer yr awtoclafau'n cael eu gwirio bob amser. Siambrau pwysedd yw awtoclafau a ddefnyddir i sicrhau bod offer a chyfarpar deintyddol yn cael eu sterileiddio'n llwyr. Defnyddir cofnodwyr data i gadarnhau'r broses sterileiddio. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid gwirio'r cofnodwyr data'n rheolaidd, gan gynnal cofnodion a'u cadw'n ddiogel, a chytunodd y practis i wneud hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tacluso'r ystafell ddadheintio.

Rhestr wirio rhaglen ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio.

Rhaid gwirio'r cofnodydd data ar gyfer yr awtoclafau'n rheolaidd a chadw cofnodion.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi dadebru ar waith, gyda gweithdrefnau clir yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod y blwch argyfwng yn cynnwys cyfarpar llwybr anadlu a oedd wedi mynd heibio i'w ddyddiad dod i ben. Cafodd ein pryderon am yr uchod sylw o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Mae manylion y gwelliannau a nodwyd gennym fel rhai yr oedd angen eu gwneud ar unwaith wedi'u darparu yn Atodiad A.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd hi'n bryd i un aelod o'r tîm derbynfa adnewyddu ei hyfforddiant, a chawsom ein sicrhau ar lafar fod cynlluniau eisoes ar waith.

Cawsom wybod bod un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu'r hyfforddiant hwn. Argymhellwn fod o leiaf un aelod o'r staff wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod un aelod o'r staff yn adnewyddu ei hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd.

Sicrhau bod o leiaf un aelod o staff y practis wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, dywedodd y practis wrthym ei bod hi'n bryd i ddau aelod o'r staff adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn oedolion. Gwnaethom hefyd argymell bod tîm y dderbynfa'n cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan reolwr y practis y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i adnewyddu'r hyfforddiant.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cawsom ein hysbysu a dangoswyd tystiolaeth i ni fod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei adnewyddu ar gyfer un aelod o'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau neu'n adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Rhaid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un deintydd at AGIC.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd yr offer radiolegol yn cael eu cynnal a chadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) mewn ffordd ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod y staff clinigol i gyd wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrhau ansawdd ar luniau pelydr-X. Fodd bynnag, o'r cofnodion a welwyd gennym, gwnaethom sylwi nad oedd y practis wedi cynnal profion lletemau rheolaidd. Defnyddir profion lletemau fel prawf sicrhau ansawdd wrth fonitro'r dull prosesu ffilm a ddefnyddir mewn peiriannau pelydr-X deintyddol. Fe wnaethom dynnu sylw'r practis at hyn, a chawsom wybod eu bod wedi trafod yr angen am brofion lletemau rheolaidd yn ystod eu cyfarfod tîm diwethaf, ac wedi cytuno i'w gwneud. Roedd cynlluniau eisoes ar droed i gynnal profion rheolaidd, a chadwyd tystiolaeth o hyn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella’r gwasanaeth a ddarperid yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau ar bethau fel cofnodion, pelydrau-X a rheoli heintiau wedi'u cwblhau a/neu'n cael eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, cawsom wybod bod adolygiadau cymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd ymhlith y staff clinigol, ac mae hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi defnyddio offeryn deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a’r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Hunanwerthuso gan ddefnyddio offeryn deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth fod y practis yn gyffredinol yn cadw cofnodion clinigol digonol, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, canfuwyd rhai anghysondebau o ran lefel y manylder a gofnodwyd yng nghofnodion unigol y cleifion. Er bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddaru ar bob ymweliad, nid oedd y rhain bob amser yn cael eu cofnodi a'u cydlofnodi gan ddeintyddion. Canfuom nad oedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth a drafodwyd gyda chleifion bob amser yn cael eu cofnodi, a chanfuom hefyd nad oedd cynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion Band 2 a Band 3[3] wedi'u llofnodi. Er bod archwiliadau meinweoedd meddal a sgrinio am ganser yn cael eu gwneud, nid oedd y rhain bob amser yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf.

Gan ystyried yr amrywiaeth a welsom yng nghofnodion cleifion, byddai'n ddoeth i'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'i broses adolygu cymheiriaid.

---

[3] Mae tri band o ffioedd ar gyfer holl driniaethau deintyddol y GIG.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi a'u cydlofnodi gan y deintyddion.

Sicrhau bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth a drafodir gyda chleifion yn cael eu cofnodi.

Sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion Band 2 a Band 3 yn cael eu llofnodi a'u dyddio.

Sicrhau bod archwiliadau meinweoedd meddal a sgrinio am ganser bob amser yn cael eu cofnodi.

Cynnal archwiliadau mwy rheolaidd o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod yr ansawdd yn gyson.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod hwn yn bractis a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac i roi sylw i fanylion.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus yn eu gwaith ac yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n fedrus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd hi'n cyflawni ei rôl mewn modd effeithlon a medrus. Gan fod y mwyafrif o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers cryn amser, roedd ganddyn nhw berthynas dda â'i gilydd. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw fater neu bryder, ac roeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi.

Canfuom fod y staff yn glir a gwybodus iawn ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi ymsefydlu staff a oedd wedi'u cwblhau, ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod gan staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant, gan fodloni'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth hefyd o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn ymwneud â statws imiwneiddio rhag hepatitis B yr holl staff a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a gwelsom eu bod yn adlewyrchu'r ymarfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu'n cael eu rheoli fesul fersiwn ac yn cynnwys llofnod staff, a oedd yn dangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys ac amserau agor y practis ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd wedi'u harddangos yn glir.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Canfuom fod y pecyn argyfwng yn cynnwys cyfarpar llwybr anadlu yr oedd ei ddyddiad wedi dod i ben. | Golygai hyn fod cleifion mewn perygl mewn sefyllfa o argyfwng. | Gwnaethom dynnu sylw'r staff at hyn, a gwnaethant drefnu bod cyfarpar llwybr anadlu newydd yn cael ei brynu ar unwaith. | Gwnaeth staff archebu'r cyfarpar llwybr anadlu ar unwaith ar ddiwrnod ein hymweliad i gyrraedd y diwrnod nesaf. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Evans Dental Limited

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Evans Dental Limited

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen tacluso'r ystafell ddadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae'r ystafell ddadheintio wedi'i thacluso. | N Coulthard (nyrs) | Cwblhawyd |
| Rhestr wirio rhaglen ymsefydlu ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio. | | Mae hyfforddiant ymsefydlu ffurfiol ar ddadheintio ar waith i aelodau newydd o staff. Mae'r rhestrau gwirio ar gyfer trefniadau dadheintio dyddiol wedi'u harddangos. Adolygir y gweithdrefnau dadheintio'n rheolaidd gan gymheiriaid | J Evans (rheolwr y practis) | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ac mae sesiynau hyfforddi ymarferol yn cael eu cynnal. Cedwir cofnodion hyfforddi yn ffeiliau unigol y staff. | | |
| Rhaid gwirio'r cofnodydd data ar gyfer yr awtoclafau'n rheolaidd a chadw cofnodion. | | Caiff cofnodwyr data eu gwirio'n rheolaidd ac mae'r cofnodion yn cael eu cynnal a'u cadw ar gyfrifiadur y practis. | H Hussell (nyrs) | Cwblhawyd |
| Sicrhau bod un aelod o'r staff yn adnewyddu ei hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae hyfforddiant blynyddol yn cael ei gwblhau ar ddadebru cardio-pwlmonaidd, ac mae hwn wedi'i drefnu ar gyfer 2018. Bydd hyn yn orfodol i'r holl staff. | DG Evans (prif ddeintydd) | Pedwar mis |
| Sicrhau bod o leiaf un aelod o staff y practis wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf. | | Mae aelodau priodol o'r staff wedi'u nodi ar gyfer y rôl hon, a bydd lle'n cael ei gadw i'r rhain ar gwrs priodol. | DG Evans (prif ddeintydd) | Tri mis |
| Dylid sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis yn cwblhau neu'n adnewyddu eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Mae hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed Lefel 2 wedi'i ddarparu ym mis Rhagfyr 2017. Bydd y staff hynny nad ydynt yn gallu mynychu yn cwblhau hyfforddiant priodol a pherthnasol, yn unol â chyngor AGIC. | DG Evans (prif ddeintydd) | Tri mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid anfon manylion y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'i hadnewyddu ar gyfer un deintydd at AGIC. | | Mae cais wedi'i gyflwyno gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am dystysgrif wedi'i hadnewyddu, a bydd yn cael ei hanfon at AGIC pan fydd yn cyrraedd. | DG Evans (prif ddeintydd) | Ar unwaith |
| Hunanwerthuso gan ddefnyddio offeryn deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Bydd offeryn deintyddiaeth y Matrics Aeddfedrwydd yn cael ei adolygu, a bydd hunanwerthuso'n cael ei gynnal, yn unol â chyngor AGIC. | J Evans (rheolwr y practis) | Pedwar mis |
| Sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu cofnodi a'u cydlofnodi gan y deintyddion.<br><br>Sicrhau bod yr holl gynlluniau ac opsiynau triniaeth a drafodir gyda chleifion yn cael eu cofnodi.<br><br>Sicrhau bod yr holl gynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion Band 2 a Band 3 yn cael eu llofnodi a'u dyddio.<br><br>Sicrhau bod archwiliadau meinweoedd meddal a sgrinio am ganser yn cael eu cofnodi. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae'r gwaith o gadw cofnodion wedi gwella, yn unol ag argymhellion AGIC.<br><br>Mae'r archwiliad nesaf o gofnodion clinigol wedi'i drefnu ar gyfer tri mis i | DG Evans (prif ddeintydd)<br><br>AR Direito Peixoto (deintydd) | Ar unwaith<br><br>Tri mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal archwiliadau mwy rheolaidd o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod yr ansawdd yn gyson. | | nawr, er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith. | J Evans (rheolwr y practis) | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): D. G. Evans**

**Swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:30 Ebrill 2018**